# Gweithio yn ôl brîff ar gyfer cynnwys radio a sain

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â gweithio yn ôl brîff penodol ar gyfer cynnwys radio a sain ofynnol - ac mae'n berthnasol i ateb brîff penodol fel aelod o dîm cynhyrchu neu gael eich comisiynu fel cynhyrchydd llawrydd (ar eich liwt eich hun) neu annibynnol gan gleient.

Mae'n ymwneud ag adnabod amcanion, cyllideb a chynulleidfa darged, a gweithio'n effeithiol gyda phwy bynnag sydd wedi gosod y dasg neu gomisiynu'r gwaith. Mae'n ymwneud ag egluro meysydd cyfrifoldeb ac adnabod y cyfryngau a'r terfynau amser priodol.

Mewn rhai amgylchiadau, gallai gynnwys proses gomisiynu gystadleuol.

Mae'r Safon hon yn berthnasol i bob un sy'n gweithio yn ôl brîff yn y diwydiannau radio a sain.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ymgysylltu mewn modd positif gyda'r person sydd wedi gosod y brîff ar gyfer cynnwys radio a/neu sain
2. adnabod yr amcanion, y gyllideb, y gynulleidfa darged fwriadedig, yr amserlenni a'r cyfrwng ar gyfer y gwaith radio a/neu sain o ffynonellau gwybodaeth dibynadwy
3. gyda phobl berthnasol, cytuno pa adnoddau mae disgwyl i chi weithio gyda nhw
4. sefydlu a chytuno meysydd cyfrifoldeb gyda phobl berthnasol, gan lunio'r brîff pan fydd gofyn
5. sicrhau bod y person sydd wedi gosod y brîff yn cael gwybodaeth am gynnydd ar adegau cytunedig
6. cynnig opsiynau amgen ymarferol a chytuno'r ffordd ymlaen gyda'r person sydd wedi gosod y brîff os bydd problemau neu rwystrau'n codi
7. datblygu cynnwys radio a/neu sain sy'n ateb amcanion y gwaith
8. darparu'r cynnwys radio a/neu sain ar amser ac o fewn y gyllideb

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y cyd-destun ar gyfer y comisiwn; arddull, diwylliant a pholisi golygyddol gorsaf benodol neu gomisiynydd arall a *genre* a ffurf y cynnwys a gomisiynwyd ar gyfer y radio a/neu sain
2. ble i gael gwybodaeth ddibynadwy am y brîff, yr amcanion, y gyllideb, y gynulleidfa darged, yr amserlenni a'r cyfrwng
3. sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda golygyddion neu gomisiynwyr a chleientiaid
4. technegau ar gyfer gwrando a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn sefydlu elfennau sefydlog y brîff a rhai y gellir eu cyd-drafod
5. gwahanol ffyrdd o ymateb i frîff ar gyfer cynnwys radio a/neu sain
6. sut i ystyried pethau annisgwyl ac ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol
7. sut i lunio brîff a'i fformatau posibl
8. y gwahanol brosesau i'w dilyn pan fydd yn gomisiwn cystadleuol

SKSRAC7

Gweithio yn ôl brîff ar gyfer cynnwys radio a sain

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSRC7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Creu Cynnwys Radio a Sain |
| **Geiriau Allweddol** | Radio, Sain, Cynnwys, Briffio, Comisiwn, Gynulleidfa, Genre, Fformat |